**CYNGOR BRO MORGANNWG**

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 25 Medi, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Aviet (Maer); Cynghorwyr Anne Asbrey, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Sally Hanks, Howard Hamilton, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Susan Lloyd-Selby, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Steffan Wiliam, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr Samantha Cambell, Robert Fisher, Stephen Haines, Helen Payne a Margaret Wilkinson.

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf, 2023, yn amodol ar newid y ffigur ar dudalen 248 i ddarllen £250,000 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 5. CYDBWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL DE DDWYRAIN CYMRU (AG/PA) –

Yn dilyn pleidlais

PENDERFYNWYD –

(1) Penodi’r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu (CTCh) fel y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Cydbwyllgor Corfforaethol (CBC) De-ddwyrain Cymru.

(2) Cymeradwyo’r Cylch Gorchwyl Drafft ar gyfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â'r CBC, fel sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(3) Nodi y bydd y gost o weinyddu'r CTCh ar gyfer y CBC yn cael ei drin gan Gytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'r CBC, i'w gwblhau maes o law.

(4) Bod CTCh y CBC yn adolygu ei Gylch Gorchwyl yn ei gyfarfod ffurfiol cyntaf a bod unrhyw welliannau yn cael eu hadrodd i'r Awdurdodau Lleol cyfansoddol perthnasol.

(5) Mai cynrychiolaeth y Cyngor ar y CTCh ar gyfer y CBC fydd Cadeirydd Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd ac Adfywio, a'r Cynghorydd I.A.N. Perry, aelod o Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd ac Adfywio yn Ddirprwy.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1-4) Sicrhau bod swyddogaethau trosolwg a chraffu priodol yn cael eu gweithredu mewn cysylltiad â'r CBC.

(5) Y Cadeirydd a'r Cynghorydd Perry yn Ddirprwy yw cynrychiolaeth anweithredol penodedig y Cyngor ar y CTCh ar gyfer Pwyllgor CBC De-ddwyrain Cymru.

EITEM AGENDA 6. DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (PW) –

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o Bwerau Brys gan y Prif Weithredwr fel y'i ceir o fewn yr adroddiad yn cael ei nodi.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried Cyfansoddiad y Cyngor.

EITEM AGENDA 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU 2022-23 (CAC) –

PENDERFYNWYD – BOD Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2022/23 yn cael ei dderbyn.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini fel sy’n ofynnol o dan Gyfansoddiad y Cyngor.

EITEM AGENDA 8(a) ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2022/23 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2021/22 fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 6 Gorffennaf, 2023 (Cofnod Rhif C45).

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 9(a) GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG ARFAETHEDIG AR GYFER EITHRIADAU I DERFYN CYFLYMDER DIOFYN 20MYA CYMRU A GWEITHREDU TERFYNAU CYFLYMDER ATEGOL (CYF) –

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod y Cabinet Rhif. C96, 7 Medi, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.